



Croeso i ail newyddlen Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru, mae'n cynnwys y newyddion diweddaraf am yr Ymddiriedolaeth ac am ddatblygiadau sydd ar y gweill.

Gobeithio y gwnewch chi ei fwynhau!

Caiff y rhifyn hwn ei ddsbarthu'n eang yn rhad ac am ddim, fel y cafodd y cyntaf. Anfonir rhifynnau'r dyfodol at Gyfeillion yr Ymddiriedolaeth yn unig. Felly os nad ydych yn aelod eto ac am dderbyn y newyddlen, ymaelodi amdani!

Os hoffech ein cefnogi a'n helpu yn ein gwaith, dewch yn aelod o Gyfeillion yr Ymddiriedolaeth - mae'n agored i bawb ar gost o £10 y flwyddyn; amgaewn ffurflen aelodaeth a ffurflen archeb banc. Neu gallwch gysylltu â swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

A chofiwch, dim ond ceidwaid yr adeiladau sydd yn ein gofal yw'r Ymddiriedolaeth, a hynny ar ran y genedl a chenedlaethau'r dyfodol.

Dyddiau Agored

Gweler tudalen 2

Fedrwch chi helpu?

Mae angen arian ar Libanus!

Gweler tudalen 4



Bethania Ebrill 2007 • Ilun: Chris Evans, Penseiri Acanthus Holden

Bethania, Maesteg

Mae gwaith wedi ei wneud ym Methania er mwyn ceisio diogelu a sefydlogi'r adeilad ac i rwystro'i gyflwr rhag gwaethygu. Atgyweiriwyd y to, y cwterydd a'r gwaith plwm ynghyd â'r pediment blaen er mwyn atal dŵr rhag treiddio i mewn i'r adeilad. Rhoddwyd griliau a gorchuddion polycarbonad ychwanegol i amddiffyn y ffenestri, gan wneud yr adeilad yn fwy diogel. Cost y gwaith hwn oedd £48,000, ac fe'i goruchwyliwyd gan Acanthus Holden, penseiri, a'r adeiladydd oedd Stafford Construction Cyf - sydd â'i swyddfa ond ychydig ddrysau oddi wrth Bethania yn Stryd Bethania. Fodd bynnag, dim ond dechrau'r gwaith sydd angen ei wneud yw hyn - mae amcangyfrif y gost o wneud y prif waith o atgyweirio'r capel ychydig o dan £1,000,000.


Rydym hefyd yn trin y chwyn Canclwm Siapan (Japanese Knotweed) *Fallopia Japonica* ym mynwent y capel, fe wneir hyn dros gyfnod o dair blynedd.




Neil Sumner, Cadeirydd YAC
yn cael golwg fanylach
Ilun: Chris Evans, Penseiri Acanthus Holden

Adolygiadau

Cyhoeddwyd dau lyfr newydd yn ddiweddar.




Discovering the Smallest Churches in Wales, gan John Kinross (Tempus, 2007) pris £12.99. Llyfr clawr meddal, sydd yn gyfeirlyfr darluniadol i ddewis personol yr awdur o 62 o eglwysi a chapeli Anglicanaidd yng Nghymru, ynghyd ag un o Dai Cwrdd y Crynwyr - yn Nolobran. Er gwaetha'i deitl, mae'r llyfr yn cynnwys manylion am weithgareddau YAC mewn atodiad.



Mae *Wales's Best One Hundred Churches*, gan T.J. Hughes (Seren, 2006) yn cynnwys 14 o gapeli anghydfurfiol ymhlith "100 gorau" yr awdur. Mae hwn yn waith o sylwedd, sydd yn haeddu bod mewn diwyg mwy o faint, petai ond er mwyn gwerthfawrogi'n well y ffotograffau lliw bendigedig, ac mae rhagymadrodd treiddgar yr awdur yn bleser i'w ddarllen. Er nad oes yr un o adeiladau presennol YAC, na'r rhai sydd ar y gweill, ymhlith y 100 uchaf, mae'n bleser nodi fod pob adeilad namyn un yn cael ei grybwyll yn nhestun y llyfr. Pris £9.99 clawr meddal, £19.99 clawr caled, bargaen o lyfr.

Neil Sumner



Llun: Roger Clive-Powell

Yr Hen Gapel Llwynrhydowen

Adeilad nodedig sydd yn y broses o gael ei drosglwyddo i ofal yr Ymddiriedolaeth yw'r Hen Gapel, Llwynrhydowen, Ceredigion. Oherwydd ei bwysigrwydd i'r Undodiaid yng Nghymru ac i'r achos radicalaidd yn gyffredinol, mae hwn yn gapel o gryn bwysigrwydd hanesyddol; efallai mai'r pwysicaf sydd wedi dod i sylw YAC hyd yma. Yn bensaernïol, mae hefyd yn enghraifft ragorol o gapel deulawr mur-hir, math sydd mor nodweddiadol

o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ond sydd erbyn hyn yn brin iawn. Trosglwyddir yr adeilad i'r Ymddiriedolaeth drwy gymorth Cynllun Comisiwn Elusen sy'n caniatáu ei drosglwyddo am lai na phris y farchnad – dyma un ffordd mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn adeiladau.

Bydd mwy am Hen Gapel Llwynrhydowen yn y Newyddlen nesaf.

Drysau Agored: Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd

Bydd dau o adeiladau'r Ymddiriedolaeth, Libanus (Llansadwrn, Sir Gaerfyrddin) a Bethania (Maesteg) ar agor eto eleni i'r cyhoedd yn ystod dyddiau agored y cynllun Drysau Agored, fel rhan o'r cynllun Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd.

Libanus: agored 10.00am - 4.00 p.m. dydd Sadwrn 15 Medi
Bethania: agored 10.00 a.m - 4.00 p.m. dydd Sadwrn 22 Medi

Trefnir Dyddiau Treftadaeth Ewropeaidd gan Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru. Rhif ffôn 029 2048 4606. Gweler www.civictrustwales.org.

Hel Atgofion

'Perfformio o'r Pulpud' - prosiect gan Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd sy'n astudio pregethu dramatig y 19eg ganrif a'r 20ed ganrif. Mae'r prosiect yn casglu atgofion llafar ledled Cymru am bregethwyr a phregethu, ac yn cynnig gwobr am y llythyr gorau sy'n cyflwyno atgofion am bregethwyr (erbyn 1 Hydref 2007).

Cyswllt: Yr Athro Sioned Davies, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Caerdydd CF10 3EU. Ffôn: 029 2087 4843. E-bost: DaviesSM@cf.ac.uk

Capel: Cymdeithas Treftadaeth y Capeli

Cynhelir Cyfarfod Hydref Capel ym Mae Colwyn ar 13 Hydref. Cyswllt: Dr Peter Mason, 61 Brookhurst Ave, Bromborough, Wirral, CH63 0HS. E-bost: peter.mason18@btopenworld.com

Bethania, Maesteg

Daeth Bethania, Maesteg, i feddiant YAC yn 2006, y capel mwyaf ym meddiant yr Ymddiriedolaeth hyd yma. Yn helaeth a mawreddog, fe'i cynlluniwyd gan Syr William Beddoe Rees yn gymysgedd o'r arddulliau Beaux-Arts Ffrengig ac Art Nouveau, ac fe'i cwblhawyd yn 1908 ar gost o £8,000. Fel capel y Bedyddwyr, mae ganddo fedyddfa nodedig ar esgynlawr y set fawr o flaen y pulpud; mae'n bosib ei ddefnyddio o hyd, ond er ei fod yn draenio'n dda ar ôl ei ddefnyddio, nid ydym hyd yma wedi dod o hyd i ble yr aiff y dŵr! Gosodwyd organ goeth newydd ar gost o £500 i ychwanegu at fywyd cerddorol cyfoethog y capel.

Mae'r achos ym Methania yn dyddio o ddyfodiad y Parch. Thomas Hopkin o Hirwaun yn 1828, blwyddyn ei ordeinio, i wasanaethu cymuned fechan o Fedyddwyr a oedd yn tyfu ac a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith haearn newydd. Gŵr o'r Gelli Gandryll oedd y gweinidog newydd, a gall achos Bedyddwyr Maesteg felly olrhain ei achau i'r achos mwy pellennig yn nyffryn Olchon ar ffin Sir Fynwy a Swydd Henffordd yn hytrach nac i John Miles yn Ilston ym Mhenrhyn Gwyr. Bu'r Parch. Thomas Hopkin yn weinidog ym Methania am 17 o flynyddoedd, gan oruchwylio adeiladu'r capel cyntaf ar y safle presennol yn 1832 ar gost o £60, a hefyd helaethu'r capel yn 1840. Fe'i claddwyd ym mynwent Llangynwyd.




Bethania – newydd ei orffen

Yn 1848 sefydlwyd Y Parch. H.W Hughes (Arwystl) yn weinidog yn y capel oedd newydd ei helaethu. Bu'n rhaid iddo ymroi llawer o'i amser a'i egni dros y blynyddoedd dilynol i deithiau pregethu er mwyn talu dyled yr ail adeiladu. Gadawodd Faesteg yn 1851 gan dderbyn galwad i eglwys yn Lerpwl. Yn y flwyddyn honno, cofnododd y Cyfrifiad Crefyddol bod 700 yn mynychu'r oedfa hwyrol ar Sul "hwyliog" ddiwedd mis Mawrth.

Fe'i olynwyd gan y Parch. Richard Hughes (1820 – 1885), a gafodd ei fedyddio gan y Parch. Thomas Hopkin yn Afon Llynfi pan oedd yn ugain oed. Cynhaliwyd y bedydd ym mis Tachwedd! Gwelodd ei weinidogaeth yr eglwys yn ehangu'n gyflym ac ail adeiladwyd y capel ddwywaith: unwaith yn gysylltiedig â Diwygiad 1859, ac eto yn 1878. Daeth gwyliau pregethu'r Sulgwyn yn nodwedd sefydlog ym mlwyddyn yr eglwys yn y cyfnod yma, felly hefyd berfformiadau corawl a dramatig. Cyhoeddwyd cyfrol o bregethau'r gweinidog dan y teitl *Pwlpud Bethania*. Claddwyd y Parch. Richard Hughes ym mynwent y capel, sydd ar hyn o bryd dan bla o Ganclwm Siapan, problem y mae YAC yn mynd i'r afael â hi rhag blaen.

Daeth y Parch. Edward Jones (Iorwerth Ddu) (1852 – 1931) i Faesteg o Droedyrhiw yn 1894. (Gweler ei lun, isod, wedi'i osod ar ddarlun o Bethania) Deng mlynedd ar ôl iddo gyrraedd, cyffrowyd Cymru gan y Diwygiad a gysylltir â phregethu Evan Roberts. Yn ystod Diwygiad 1904-5 bedyddiwyd 158 aelod newydd ym Methania: yn ystod ugain mlynedd cyntaf gweinidogaeth y Parch Edward Jones bedyddiwyd 651 yn y capel. Yn yr awyrgylch yma o fwrlwm y diwygiad y comisiynwyd William Beddoe Rees i gynllunio'r capel presennol.

Ym mis Medi 1925, cyfarfu Undeb Bedyddwyr Cymru yn y capel newydd hwn, gyda'i weinidog hir ei wasanaeth yn Llywydd. Paratowyd hanes yr achos gan Samuel Davies, cadeirydd y pwyllgor hanes, a diddorol yw nodi mai Dr Tom Richards, hanesydd enwog



Braslun, mae'n debyg gan W. Beddoe Rees

Piwritaniaeth Gymreig, a oedd ar y pryd yn athro hanes yn yr ysgol uwchradd leol, oedd yr ysgrifennydd. Daeth Bedyddwyr ynghyd o bob rhan o Gymru a thu hwnt, gan gyrraedd ar fws a thrên. O Gadair yr Undeb, bwriodd Iorwerth Ddu olwg bwylllog dros helbulon cymdeithasol a gwleidyddol y dydd.

Yr union gyffro hwnnw a gyfrannodd



at Ddiwygiad 1904-05 a oedd hefyd, yn baradocsaid, wrth wraidd y lleihad yn y niferoedd a fynychai capeli Cymru, dirywiad a brysurodd yn y blynyddoedd wedi'r Rhyfel Mawr, a welodd golli nifer o aelodau capel Bethania ar faes y gad.

Mae'r diweddar John Ackerman yn rhoi cameo difyr o un o weinidogion Bethania wrthi'n ymarfer ei bregethau yng ngardd y Mans, Bethania House, ac, ar achlysur y trip trên cyntaf i'w drefnu i lan y môr o

Faesteg ar y Sul, yn taranu yn erbyn y fath bechod:

Gan sylwi ar un o'i braidd, dywedodd, mewn llais taran Awst cyn y storm: 'Os ewch chi ar y wibdaith yma i Borthcawl dydd Sul byddwch yn mynd i Uffern, Bryn Bevan! I uffern dân dragwyddol!' 'Mae'n iawn peidiwch â phoeni, mae gen i docyn i ddod nôl hefyd' atebodd Bryn yn dalog wrth i'r trê'n llawn a llawen adael.

Bu dirywiad cyson yn nifer aelodau'r capel, gan gyflymu yn ail hanner yr

ugeinfed ganrif, a hyn arweiniodd at gau'r capel yn 2004.

David Barnes Gorffennaf 2007

Darllen Pellach:

John Ackerman *Up the Lamb* (Penybont ar Ogwr, 1998) / Hywel Teifi Edwards (gol.), *Llynfi, ac Afan, Garw ac Ogwr* (Llandysul, 1998). / Geraint H. Jenkins, 'Doc Tom' Thomas Richards (Caerdydd, 1999) / *Cylchgrawn Hanes Crefydd Cymru/Journal of Welsh Religious History*, Cyfrol 4; 2004



Tu Mewn Libanus

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Capel Libanus - APÊL

Fedrwch chi helpu?

Helpwch ni i godi arian i dalu am waith yn Libanus. Rydym yn apelio am arian er mwyn medru dechrau cyn gynted â phosib ar waith angenrheidiol ar yr adeilad.

Capel Bedyddwyr syml yw Libanus, sydd yn wych iawn oddi mewn. Saif yn ymyl Llansadwrn, Sir Gaerfyrddin ac fe'i rhestrwyd yn Gradd II*.

Adeiladwyd yr adeilad presennol yn 1841 a'i helaethu yn niwedd yr 19eg ganrif. Caewyd y drysau yn 1998 a daeth i feddiant yr Ymddiriedolaeth yn 2003.

Mae'n rhaid i ni gyrraedd canran cyd-ariannu a throthwy cyllid penodol cyn medru bwrw mlaen. Hyd yma rydym wedi codi, neu yn hyderus o godi £87,000. Mae'n rhaid gwneud cais i rai ffynonellau grant ar ôl cyflawni'r gwaith, eraill ar adeg derbyn tendrau, a'r rhan fwyaf cyn dechrau unrhyw waith. Ddwedodd neb ei fod o'n hawdd!! Mae angen o leiaf

£20,000 yn ychwanegol arnom ni er mwyn medru dechrau ar ran gyntaf y gwaith i'r adeilad – gwaith atgyweirio'r to, y drysau a'r ffenestri. Rydym dal i gyflwyno ceisiadau ariannu i wahanol gyrff, ac yn disgwyl ymateb i eraill. Ond bu'r ymateb hyd yma yn llawer arafach a chymysg na'r disgwyl.

Helpwch ni os gwelwch yn dda i godi arian i dalu am y gwaith hwn. Fe dderbynnir pob rhodd, beth bynnag ei faint, yn ddiolchgar iawn! Gall punt a gyfrennir gan rywun sydd yn talu trethi fod werth cymaint â £1.50 i'r Ymddiriedolaeth wrth ryddhau arian o ffynonellau eraill - Cymorth Rhodd a chynllun adennill TAW (Cynllun Grantiau Mannau Addoli Cofrestredig).

Anfonwch eich rhoddion at Reolwr yr Ymddiriedolaeth yn 10 Heol y Dŵr, Penygroes, Caernarfon, LL54 6LR.

Yn rhyfedd ddigon nid ydym wedi medru dod i hyd i'r un ffotograff o Libanus cyn y flwyddyn 2000. Os ydych yn gwybod am unrhyw ddeunydd dogfenol hanesyddol - gan gynnwys lluniau, cysylltwch â ni.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn cymorth grant gan Cadw, adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gynnal rhan sylweddol o'i chostau beunyddiol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn derbyn arian ar hyn o bryd oddi wrth yr Esmée Fairbairn Foundation tuag

at gostau craidd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni. Byddwn yn falch iawn o glywed gennych chi!

Rheolwr yr Ymddiriedolaeth:
Gruff Owen
ebost: post@yacwrbt.plus.com
Ffôn: 01286 881365

10 Heol y Dŵr,
Penygroes,
Caernarfon,
Gwynedd LL54 6LR

Elusen Gofrestredig 1084030
Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant 3870343
Cofrestrwyd yng Nghymru